Prosiect menter ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu gan

RWE

y diweddaraf o'r

# ystafell newyddion

Medi 2022

## Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) Argraffiad archwiliad




Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru



# croeso

Rhifyn Medi 2022

## Neges gan Paul Carter, Uwch Reolwr Caniatadau

Gyda chyfnod archwilio datblygiad fferm wynt alltraeth Awel y Môr yn dechrau, hoffai tîm y prosiect ddiolch i chi am gymryd amser i ddarllen am yr hyn yr ydym yn ei wneud i sicrhau buddsoddiad mwyaf Cymru mewn ynni gwyrdd y degawd hwn.

Yn y cylchlythyr hwn fe welwch wybodaeth am broses archwilio Llywodraeth y DU, yn ogystal â phroses trwydded forol Llywodraeth Cymru, sy'n rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd .

Mae gennym hefyd y newyddion diweddaraf ar safle peirianneg newydd Grŵp Llandrillo Menai. Mae RWE eisoes yn hyfforddi ei holl brentisiaid o'r DU yng Ngogledd Cymru ar y cyd â'r coleg. Pe bai Awel y Môr yn mynd yn ei flaen, ni fydd ond yn cynyddu'r angen am dechnegwyr tra medrus, hynod gymwys fel y rhai sy'n gweithio ar hyn o bryd ar Gwynt y Môr.

Yn olaf, mae gennym fwy o wybodaeth am y gadwyn gyflenwi sy'n cael ei hadeiladu yn y rhanbarth, a sut mae cwmnïau Gogledd Cymru eisoes yn elwa o fuddsoddiad cynyddol mewn ynni glân .


Gyda gallu cynhyrchu sy'n cyfateb i bweru mwy na 500,000 o gartrefi, mae Awel y Môr yn elfen allweddol o strategaeth diogelwch ynni Llywodraeth y DU, sy'n targedu'r defnydd o ddigon o ynni gwynt ar y môr i bweru pob preswylfa ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon erbyn 2030.

Mae'r strategaeth yn gwneud cynhyrchu mwy o'n hynni gyda gwynt ar y môr yn brif flaenoriaeth wrth i'r DU geisio cyflawni ei huchelgeisiau sero net yn ogystal â lleihau costau, gyda phrosiectau fel Awel y Môr yn un o'r ffyrdd rhataf yn ogystal â gwyrddaf o gadw'r goleuadau ymlaen.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar gyfer tîm y prosiect, ar unrhyw adeg, mae croeso i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion a geir yn y cylchlythyr hwn.



Paul Carter, Uwch Reolwr Caniatadau



# Archwiliad cyhoeddus o gynlluniau ar gyfer buddsoddiad ynni adnewyddadwy mwyaf Cymru'r degawd hwn ar fin dechrau

**Mae'r archwiliad cyhoeddus o'r cynlluniau i adeiladu'r hyn fydd y buddsoddiad mwyaf mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru'r degawd hwn ar fin dechrau.**

Mae'r dyddiadau ar gyfer archwilio'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (GCD) ar gyfer fferm wynt alltraeth Awel y Môr wedi'u cyhoeddi gan Arolygiaeth Gynllunio'r DU, gyda'r gwrandawiadau cyntaf i'w cynnal yr wythnos hon.

Cynhelir cyfarfod rhagarweiniol yn Venue Cymru yn Llandudno ar 20fed Medi i drafod materion gweithdrefnol, gyda'r gwrandawiadau cyntaf yn dilyn ar 21ain a 22ain .

Mae'r cyntaf o'r ddau hyn i edrych ar y GCD drafft ei hun, sef y dull cyfreithiol o roi'r golau gwyrdd i brosiectau o'r maint hwn. Bydd yr ail yn 'wrandawiad llawr agored', gyda phartïon cofrestredig â chanddynt fuddiant yn cael eu gwahodd i siarad ar unrhyw bwnc perthnasol o'u dewis.

Mae amserlen lawn hefyd i'w chyhoeddi yn nodi dyddiadau gwrandawiadau pellach a dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno deunyddiau ysgrifenedig cyn i'r broses ddod i ben ym mis Mawrth 2023. Mae'r archwiliad yn cynrychioli'r cyfle olaf i unigolion, sefydliadau a chyrff statudol gyflwyno eu barn ar ein cynigion.

Dywedodd yr Uwch Reolwr Caniatadau, Paul Carter: "Ar ôl treulio llawer iawn o amser ar adroddiadau manwl ar ddulliau adeiladu, y llwybr ceblau, a'r effaith economaidd ehangach, ymhlith llawer o agweddau eraill ar y prosiect, rydym yn edrych ymlaen at roi'r cynigion ar gyfer Awel y Môr o dan y microsgop wrth i ni ddechrau ar gam olaf y broses GCD.

"Byddwn yn annog unrhyw un sydd â diddordeb i gadw llygad am hysbysiadau cyhoeddus yn y cyfryngau, a fydd yn hysbysebu ble a phryd y cynhelir gwrandawiadau yn y dyfodol.

"Pe bai'n cael ei gymeradwyo, bydd gan y prosiect hwn allu cynhyrchu sy'n cyfateb i bweru hanner miliwn o gartrefi, a bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i sicrwydd ynni'r DU ar gyfer y degawd nesaf .

"Fel buddsoddiad mor sylweddol, mae Awel y Môr hefyd yn gyfle mawr i fusnesau ledled Gogledd Cymru fanteisio ar wynt ar y môr. Oherwydd hyn rydym eisoes wedi dechrau gwaith rhagarweiniol gyda phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi i sicrhau bod y rhanbarth mewn sefyllfa dda i elwa ar y buddion y mae'r prosiect yn eu cynnig."

Ymhlith y sefydliadau y disgwylir iddynt gymryd rhan yn yr archwiliad mae awdurdodau lleol, aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb, yn ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru a rheoleiddwyr perthnasol eraill.

Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi pob gwrandawiad yn bersonol neu'n rhithiol (naill ai dros y ffôn neu drwy ddefnyddio platfform Microsoft Teams).

Mae cyngor helaeth i unrhyw un sydd â diddordeb yn y broses, gan gynnwys sut i gysylltu â chyfarfodydd rhithwir ar gael ar wefan Arolygiaeth Gynllunio'r DU **https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-awel-y-mor/.**

Disgwylir i'r archwiliad ddod i ben ym mis Mawrth 2023.

## Mae gan Arolygiaeth Gynllunio'r DU chwe mis i gynnal ei harchwiliad o'n cais am orchymyn cydsyniad datblygu (DCO).

Mae Arolygiaeth Gynllunio'r DU wedi penodi panel o arolygwyr, a elwir yn Awdurdod Archwilio, i adolygu'r cais ar ran Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Bydd y panel hwn yn cynnal y cyfarfod rhagarweiniol a phob gwrandawiad arall, gan gynnwys Gwrandawiadau Llawr Agored a'r rhai sydd wedi'u hamserlennu i drafod materion penodol yn ymwneud â'n cynigion. Gwahoddir 'Partïon â chanddynt Fuddiant' a gofrestrodd o flaen llaw drwy wneud "cynrychiolaeth berthnasol", a chyrff statudol, gan gynnwys y rheoleiddwyr perthnasol, i gyfrannu. Nid oes gan bobl nad ydynt wedi'u cofrestru fel Partïon â chanddynt Fuddiant hawl awtomatig i gymryd rhan, ond gall y panel ganiatáu iddynt wneud hynny.

Rhoddwyd cyngor ar y broses gofrestru mewn cylchlythyrau blaenorol, a gallwch gael rhagor o wybodaeth am gymryd rhan yn yr Archwiliad drwy wefan Arolygiaeth Gynllunio'r DU.


Bydd pynciau ac enwau'r rhai y gofynnir iddynt fynychu gwrandawiadau neu ateb cwestiynau ysgrifenedig hefyd yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw ar wefan Arolygiaeth Gynllunio'r DU.

Mae'r gwrandawiadau cyntaf i'w cynnal yn Venue Cymru yn Llandudno, ac maent yn agored i unrhyw un fynychu naill ai'n bersonol neu'n rhithiol drwy fanylion a ddarperir gan Arolygiaeth Gynllunio'r DU.

Bwriad gwrandawiadau yw canolbwyntio ar ganfod ffeithiau heb osod un ochr yn erbyn y llall, ac er bod y gwrandawiadau'n bwysig, mae'r broses archwilio yn bennaf yn un ysgrifenedig gyda'r holl ddogfennau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gynllunio'r DU.

Ar ôl i'r archwiliad chwe mis ddod i ben, mae gan yr Awdurdod Archwilio dri mis i wneud argymhelliad i Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ynghylch a ddylid rhoi neu wrthod caniatâd. Yna mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dri mis arall i wneud penderfyniad.

Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys dolenni i fynychu o bell, ar gael ar wefan Arolygiaeth Gynllunio'r DU yma: **Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr | Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (planninginspectorate.gov.uk).**



# Blaenoriaethau i'w trafod yn ystod yr archwiliad, wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor :

## Wedi'i dewis gan yr Awdurdod Archwilio

- Hedfanaeth
- Bioamrywiaeth, ecoleg a'r amgylchedd naturiol
- Defnyddiau masnachol o'r môr megis morgludiant, mordwyaeth, pysgodfeydd.
- Caffael tir yn orfodol a meddiannu tir dros dro
- Adeiladu
- Y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft
- Perygl llifogydd ac ansawdd dŵr
- Yr effaith ar yr amgylchedd morol naturiol
- Dyluniad da
- Amgylchedd hanesyddol
- Defnydd tir
- Morwedd, tirwedd ac effaith weledol
- Prosesau ffisegol morol ac arfordirol
- Yr effaith ar yr amgylchedd morol naturiol
- Prosiectau a chynigion eraill gerllaw
- Iechyd y cyhoedd a niwsans
- Prosiectau a chynigion eraill gerllaw
- Disgrifiad o'r prosiect a dewis safle
- Morwedd, tirwedd ac effaith weledol
- Economeg gymdeithasol
- Twristiaeth a hamdden
- Traffig a thrafnidiaeth



# Beth yw trwydded forol a pham ydym angen un o'r rheini hefyd?

**Tra bod yr archwiliad o'n cais am orchymyn cydsyniad datblygu (DCO) gan lywodraeth y DU ar y gweill, mae proses gyfochrog yn cael ei chynnal gyda Llywodraeth Cymru.**

Gan fod cyfrifoldeb am adnoddau naturiol yn faes datganoledig, rhaid i'r tîm prosiect hefyd gael trwydded i weithio yn yr amgylchedd morol, sy'n cwmpasu holl agweddau morol ac alltraeth y prosiect, gan gynnwys gwely'r môr yn ogystal ag afonydd llanw.

Er mwyn helpu'r broses i redeg mor llyfn â phosibl, mae tîm Awel y Môr wedi gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i sicrhau bod proses y drwydded forol yn cyd-fynd yn fras â'r broses GCD, y mae CNC hefyd yn ymgynghorai statudol ar ei chyfer.

Ar ôl i'n cais am y drwydded gael ei ddilysu, neu ei "wneud yn briodol", cynhaliodd tîm trwyddedu morol CNC ymgynghoriad technegol gyda rheoleiddwyr ac ymgyngoreion statudol. Dilynwyd hyn gan ymgynghoriad cyhoeddus, a daeth y ddau i ben erbyn 18 Awst eleni.

Y cam nesaf yw i CNC godi unrhyw gwestiynau sy'n deillio o'r ddau ymgynghoriad hyn gyda thîm prosiect Awel y Môr yn ôl yr angen. Efallai y bydd CNC wedyn yn dewis codi cwestiynau pellach mewn ymateb, ac efallai y bydd ymgynghoriad pellach ar y deunyddiau a gyflwynir.

Gobeithiwn gael penderfyniad ar y drwydded forol tua mis yn dilyn penderfyniad ar y cais GCD, yn 2024.

# Roedd prentis technegydd wrth ei fodd yn gweithio allan ar y tyrbinau

**Mae prentis technegydd tyrbinau o Landudno, a allai gynnal fferm wynt Awel y Môr rhyw ddydd, yn dweud na ddychmygodd erioed y byddai'n gallu gweithio ar y tyrbinau yr oedd yn arfer eu gweld bob tro y byddai'n mynd allan am dro.**

Mae Owen Williams, 24, ar hyn o bryd ar gwrs peirianneg pŵer a chynnal a chadw tyrbinau gwynt lefel 3 gyda Grŵp Llandrillo Menai.

Dywed unwaith iddo ddod i wybod am y cwrs, dechreuodd gyrfa mewn technoleg adnewyddadwy ymddangos yn llawer mwy hygyrch.

Meddai Owen: "Roeddwn i'n arfer cerdded ar hyd yr arfordir a gweld y tyrbinau allan ar y môr, yna meddwl 'tybed sut maen nhw'n gweithio?', a dyma fi, rŵan yn dysgu sut i wneud iddo ddigwydd.




"Pan ddechreuwch ei ystyried o ddifrif, nid yw'n hawdd ond mae'n syml ac yn glir sut y gallwch chi adeiladu gyrfa mewn ynni adnewyddadwy fel hyn.

"Byddaf yn mynd allan i'r môr o Borthladd Mostyn ar ddydd Mawrth a dydd Iau i gynnal a chadw tyrbinau, sy'n cynnwys elfennau o hydroleg, peirianneg drydanol a mecanyddol.

"Oherwydd fy mod wedi gwneud tipyn o'r cwrs fel rhan o Dystysgrif Genedlaethol Uwch mewn peirianneg pŵer, a astudiais cyn cael fy mhrentisiaeth, mae gen i gyfle i fynd ar y môr yn gynharach yn y cwrs na'm cyfoedion."



# Gwaith wedi'i ddechrau ar safle hyfforddi peirianneg gwerth £12m

**Mae gwaith wedi dechrau ar ganolfan peirianneg a thechnolegau adnewyddadwy newydd Grŵp Llandrillo Menai yn y Rhyl.**

Bydd yr adeilad yn cynnwys neuadd gwasanaethu a chynnal a chadw tyrbinau gwynt tri llawr, graddfa ddiwydiannol, a fydd yn cefnogi'n uniongyrchol y bartneriaeth Hyfforddiant Myfyrwyr a Phrentisiaid rhwng y Coleg a'r cyflogwr allweddol, RWE.

Bydd y cyfleuster hyfforddi sgiliau newydd yn ymwneud â thyrbinau gwynt yn gartref newydd wedi'i uwchraddio i "Ganolfan Ryngwladol Technolegau Tyrbinau Gwynt" Grŵp Llandrillo Menai, sydd eisoes wedi'i chydnabod yn genedlaethol, a fydd yn symud o Landrillo-yn-Rhos i'r Rhyl.

Dywedodd Lawrence Wood, Pennaeth Coleg Llandrillo: "Bydd y datblygiad newydd hwn yn gwella campws Coleg Llandrillo yn y Rhyl yn sylweddol.

"Bydd yn rhoi'r gallu i ddysgwyr yn y rhanbarth ddysgu a hyfforddi gyda'r dechnoleg ddiweddaraf mewn amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf. Bydd hyn yn eu rhoi mewn sefyllfa dda i ddilyn gyrfaoedd sy'n talu'n dda mewn diwydiannau fel cynhyrchu pŵer, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch."

https://www.gllm.ac.uk/





# Tîm y prosiect yn rhoi golwg agos-atoch-chi ar fferm wynt alltraeth i'r BBC

**Croesawodd tîm prosiect Awel y Môr ohebydd economeg BBC Cymru, Sarah Dickens, i Borthladd Mostyn ochr yn ochr â chydweithwyr o Gwynt y Môr, er mwyn rhoi persbectif gwahanol i wylwyr ar dyrbinau gwynt ar y môr.**

Aeth Dickens, ochr yn ochr â gohebydd ar gyfer gwasanaeth Cymraeg y BBC (Cymru Fyw) a gwasanaeth newyddion y Press Association, gyda chriw allan i'r fferm wynt 160-tyrbin oddi ar arfordir Gogledd Cymru.

Cafodd arweinydd y prosiect, Tamsyn Rowe ei chyfweld am ddarn ar y manteision economaidd sylweddol y gallai gwynt ar y môr eu cynnig i fusnesau Cymru, a ddangoswyd ar raglen BBC Wales Today.

Meddai Tamsyn: "Roedd yn bleser pur gallu dangos y strwythurau trawiadol hyn yn agos i'r gwylwyr, ac rydym yn ddiolchgar iawn i'n holl gydweithwyr ym Mhorthladd Mostyn sy'n gwasanaethu a chynnal y fferm wynt, am ein lletya."



# Yr Arolygiaeth Gynllunio: Y Broses o Wneud Cais am Orchymyn Cydsyniad

Tua dwy flynedd

## Cyn ymgeisio:

Chwiliwch am wybodaeth yn y cyfryngau lleol ac mewn mannau cyhoeddus ger lleoliad y prosiect arfaethedig, fel eich llyfrgell. Bydd y datblygwr yn datblygu eu cynigion ac yn ymgynghori'n eang.

28 diwrnod

## Derbyn:

Mae gan yr arolygiaeth, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, 28 diwrnod i benderfynu a ydy'r cais yn cyrraedd y safonau angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i'r cam archwilio gan gynnwys a ydy'r datblygwr wedi ymgynghori digon.

Tua 4 mis

## Rhag-archwilio:

Gallwch chi nawr gofrestru fel parti sydd â diddordeb; byddwch chi'n cael gwybod am hynt y cais a chyfleoedd i gyflwyno eich achos chi. Bydd arolygwyr yn cynnal Cyfarfod Rhagarweiniol ac yn llunio'r amserlen ar gyfer y gwaith archwilio.






6 mis

## Archwilio:

Gallwch chi nawr anfon eich sylwadau ysgrifenedig. Gallwch wneud cais i siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus. Mae gan yr arolygiaeth chwe mis i gynnal yr archwiliad.

6 mis

## Penderfyniad:

Bydd yr arolygiaeth yn cyhoeddi argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol cyn pen tri mis. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedyn dri mis arall i gyhoeddi penderfyniad ynghylch y cynnig.

6 wythnos

## Ar ôl y penderfyniad:

Mae cyfle i herio'r penderfyniad yn gyfreithiol.

# Pennawd: Cwmni o Ruthun yn elwa o wynt ar y môr

**Mae cwmni o Ddyffryn Clwyd sydd wedi ennill enw da iddo'i hun yn y sector ynni gwynt ar y môr, eisoes yn elwa ar Awel y Môr.**

Mae Workplace Worksafe Cyf, sydd ar hyn o bryd yn cyflenwi offer amddiffynnol personol (PPE) i'r cannoedd o staff sy'n gweithio ym Mhorthladd Mostyn, wedi bod yn cyflenwi dillad i dîm y prosiect wrth iddynt gynnal arolygon a gwaith arall o amgylch Gogledd Cymru.

Mae'r cwmni'n cyflogi 14 o staff ac, yn ogystal â chyflenwi PPE a dillad, mae hefyd wedi datblygu nifer o gynhyrchion eraill ar gyfer diogelu cydrannau tyrbinau gwerthfawr wrth eu cludo.

Meddai Rhian Parry, y Rheolwr Gyfarwyddwr: "Mae yna gyfleoedd mawr hyd yn oed i fusnesau llai ym maes ynni adnewyddadwy.

"Un enghraifft dda yw ein cynnyrch amddiffynnol i drafnidiaeth Deltasafe & SiTsafe: fe wnaethom ddatblygu'r rhain yma yn Rhuthun, ac erbyn hyn maent yn cael eu gwerthu gan wneuthurwr cydrannau mawr i ffermydd gwynt ar draws y byd, gan arbed cannoedd o oriau gwaith ar bob safle y maent yn cael ei ddefnyddio bob blwyddyn.

"Rydym eisoes wedi adeiladu perthynas dda gyda thîm Awel y Môr, a gobeithiwn barhau os bydd y prosiect yn derbyn cydsyniad datblygu."




www.awelymor.cymru

get in touch 0800 197 8232 awelymor@rwe.com